

#einffermydd
#ourfarms



YN FYW O'R FFERM

DEMO FARM LIVE



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

FFERM RHIWAEDOG

Sector Allweddol: Biff, Defaid

Gwerthuso buddion technoleg i ganfod pan fo buchod yn gofyn tarw i sicrhau enillion o ran ffrwythlondeb buches sugno. Gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd oddi ar y borfa.

FFEITHIAU'R FFERM:

- Mae fferm arddangos Rhiwaedog yn fferm fynydd o 142 hectar (ha) ac mae'n gweithio fel fferm biff a defaid.
- Aled a Dylan yw'r bedwaredd genhedlaeth o deulu'r Jonesiaid sydd wedi bod yn ffermio ar y daliad, sy'n 1,000 o droedfeddi o uchder yn ei man uchaf.
- Mae'r fuches biff yn cynnwys 70 o fuchod sugno Duon Cymreig sy'n cael eu troi at darw stoc Charolais neu darw stoc Du Cymreig; o ran yr heffrod, tarw Saler sy'n cael ei ddefnyddio.
- Mae epil y fuches yn cael eu gwerthu fel gwartheg stôr mewn marchnadoedd da byw.
- Mae'r ddiadell o 1500 o famogiaid yn cael ei rhannu'n dri grŵp - Texel x Miwl ac Aberfields, Cheviot x mamogiaid Cymreig a mamogiaid Cymreig.
- Mae'r rhan fwyaf o'r defaid croes yn wyna o dan do o ddiwedd mis Chwefror ymlaen a bydd y mamogiaid Cymreig yn wyna yn yr awyr agored ym mis Ebrill.
- Mae 80% o'r wŷn yn cael eu gwerthu drwy'r fasnach fyw.

Cefnogaeth bellach gan Cyswllt Ffermio	Manylion
E-ddysgu - Cysiau dysgu rhyngweithiol byr y gallwch eu cwblhau o'ch cartref ar amser cyfleus	Mae'r cysiau sydd ar gael yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Ymwrthedd Anthelminitig ar Ffermydd Defaid • Ffrwythlondeb y Fuches Biff • Meincnodi eich Fferm • Effeithlonrwydd Bwyd • Rheoli Pori • Rhywogaethau Glaswelltir • Systemau Pori • Gwella lechyd Pridd • Atgenedlu Tymhorol Mewn Mamogiaid
Hyfforddiant wyneb i wyneb - Cefnogaeth ariannol o hyd at 80% ar gael tuag at gyrsiau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid	Mae'r cysiau sydd ar gael yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Cwrs lefel uwch ar docio traed gwartheg • Gwell systemau trin da byw er mwyn cynyddu elw • Iechyd, Lloches a Rheoli Lloi • Trimio Traed Gwartheg • Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr mewn System Da Byw • Cyflwyniad i Reoli Llyngyr a Chyfrif Wyau Ysgarthol ar gyfer Cynhyrchwyr Defaid • Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn Modd Diogel • Defnyddio a Gwasgaru Slyri'n Ddiogel
Cymorthfeydd - Cymorthfeydd digidol un i un wedi'u hariannu'n llawn	Mae'r pynciau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Maeth • Rheoli pridd a glaswelltir • Materion iechyd anifeiliaid
Rhaglen TGCh	<ul style="list-style-type: none"> • Fideo o weminar gan Moocall ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio • Sesiynau hyfforddi un i un dros y ffôn neu ar-lein i'r rhai sydd â sgiliau TGCh sylfaenol • Cwrs hyfforddiant o'r cartref i ddysgu sgiliau TGCh sylfaenol ar gael drwy'r haf gyda chymorth gan golegau diwydiannau'r tir.
Gwasanaeth Cyngori	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio busnes • Ffrwythlondeb • Rheoli glaswelltir • Cynllunio rheoli maetholion • Llundio dognau bwydo
Rhagori ar Bori	Cymryd rhan yn y rhaglen er mwyn gweithredu arferion gwell o ran rheoli'r borfa ac adolygu effeithlonrwydd y defnydd a wneir o'r borfa.

